**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**14 MEDI 2016**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**GORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU PROSIECT ISADEILEDD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL**

**CYMERADWYO GOFYNION**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw ceisio cytundeb yr Aelodau i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo i alluogi swyddogion i gyhoeddi penderfyniadau ar fanylion technegol a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â'r 'gofynion' cynllunio a geir yng Ngorchmynion Caniatâd Datblygu Prosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae dau Brosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol yn y sir sydd wedi derbyn Caniatâd Datblygu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sef Fferm Wynt Coedwig Clocaenog a Chysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.

2.2 Mae Gorchymyn Caniatâd Datblygu wedi ei ddeddfu ar gyfer pob cynllun sy'n trosglwyddo pŵer i'r ymgymerwr gynnal y datblygiadau, h.y.:

- Gorchymyn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog 2014 – daeth i rym 2 Hydref 2014.
- Gorchymyn Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru 2016 – daeth i rym 19 Awst 2016.

2.3. Dylai aelodau gofio bod Gorchymyn Caniatâd Datblygu Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru wedi ei ddeddfu'n ddiweddar iawn ac felly yn dal o fewn yr amserlen 6 wythnos ar gyfer her gyfreithiol ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Mae adroddiad gwybodaeth ar wahân ar hyn wedi ei gynnwys yn y rhaglen.

2.4 Mae Gorchmynion Caniatâd Datblygu yn cynnwys cyfres o ofynion cynllunio sydd â'r un pwrpas a swyddogaeth ac amodau cynllunio a osodir ar ganiatâd cynllunio arferol.

2.5 Mae nifer o'r gofynion cynllunio a gynhwysir yn y Gorchmynion Caniatâd Datblygu unigol yn gofyn am gyflwyno manylion technegol i'w hystyried a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, fel Datganiadau Dull Adeiladu, Cynlluniau Rheoli Traffig ac ati, cyn y gellir dechrau ar y datblygiad.

2.6 Mae Atodiad 1 yn rhestru'r gofynion a gynhwysir yng Ngorchymyn Caniatâd Datblygu Fferm Wynt Coedwig Clocaenog ac mae Atodiad 2 yn rhestru'r gofynion a gynhwysir yng Ngorchymyn Caniatâd Datblygu Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru.

2.7 Mae gan swyddogion bwerau dirprwyedig i benderfynu ar geisiadau cymeradwyo amodau, fodd bynnag, nid yw hyn yn ymestyn i geisiadau cymeradwyo gofynion gan eu bod y tu allan i broses gymeradwyo amodau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2.8 Felly, er mwyn hwyluso’r broses o ddelio â cheisiadau o’r fath, ceisir pwerau dirprwyedig i ganiatáu i swyddogion ddelio gyda cheisiadau cymeradwyo gofynion heb eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio. Byddai'r pŵer i benderfynu ar geisiadau cymeradwyo gofynion yn cael ei ddefnyddio gyda disgresiwn ac mewn cytundeb ag Aelodau lleol, gyda materion mwy 'dadleuol' yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio os oes angen.

**4. PENDERFYNIAD**

4.1 Gofynnir i Aelodau benderfynu dirprwyo pwerau i swyddogion allu penderfynu ar geisiadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â’r gofynion cynllunio a geir yng Ngorchmynion Caniatâd Datblygu Prosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac i ddiwygio’r Cynllun Dirprwyo drwy fewnosod y paragraff canlynol:

“1.4.5 I benderfynu ar geisiadau a gyflwynir i’r awdurdod cynllunio lleol yn unol â’r gofynion cynllunio a geir yng Ngorchmynion Caniatâd Datblygu Prosiect Isadeiledd o Arwyddocâd Cenedlaethol.”

**GRAHAM H. BOASE**

**PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**